| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **DYDDIAD:** | 16 Ebrill 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:** | Bethan Jones, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:** | Hannah Edwards, Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **TESTUN:** | Cymeradwyo Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 I roi adborth i aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan fyrddau gweithredol y partneriaid statudol mewn perthynas â Chynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych 2018 – 2023. I geisio cymeradwyaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r Cynllun Lles.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Cymeradwyo'r crynodeb a'r fersiwn technegol o Gynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych 2018 – 2023 (atodiad A a B).

2.2 Cymeradwyo cyhoeddiad o'r Cynllun Lles ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod gofyniad statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu Cynllun Lles Lleol ar gyfer eu hardal.

3.2 Rhaid i'r cynllun lles lleol nodi sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal, drwy osod amcanion lleol a fydd yn gwneud y gorau o'r cyfraniad a wneir gan y bwrdd i gyflawni nodau lles yn ei ardal.

3.3 Yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cynllun Lles wedi'i gymeradwyo yn y byrddau gweithredol canlynol o'r partneriaid statudol. Gellir dod o hyd i lythyrau cymeradwyo a dyfyniadau o'r cofnodion (os ydynt ar gael) yn atodiad C.

i. Cyngor Sir Ddinbych – 20 Chwefror 2018
ii. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 1 Mawrth 2018
iii. Cyfoeth Naturiol Cymru – 16 Mawrth 2018
iv. Gwasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru – 19 Mawrth 2018
v. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – 5 Ebrill 2018

**4. YMGYNGHORI**

4.1 Ymgynghorwyd yn eang yn ystod datblygiad o'r cynllun lles -

- Cafwyd ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws Conwy a Sir Ddinbych o dan brosiect Sgwrs y Sir yn ystod haf 2016, a oedd yn llywio'r cynllun a'r asesiad lles.

- Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych sawl digwyddiad rhanddeiliaid ym Mehefin 2017. Roedd hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid o ardal Conwy a Sir Ddinbych helpu'r bwrdd i flaenoriaethau gweithgareddau ar draws themâu Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd, ac yn cynnig atebion a chamau gweithredu posibl yn y tymor byr, canolig a hir.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos ar y Cynllun Lles drafft o Dachwedd 2017 i Ionawr 2018, gyda rhanddeiliaid statudol a grwpiau cymunedol.

**5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

5.1 Nid oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw adnodd penodol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu prosiectau i gefnogi'r blaenoriaethau hyn, ac nid yw'n credu y byddai creu 'haen' arall o waith yn effeithiol. Felly penderfynwyd mai ffocws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw arwain, craffu a hyrwyddo a chydweithio yn y meysydd hyn o fewn y strwythurau presennol, a cheisio cydgrynhoi a herio'r strwythurau hynny i gwrdd â'r rhaglen sydd wedi ei phennu.

**6. RISG**

6.1 Wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu mewn mwy o fanylder, caiff cofrestr risg ei datblygu. Ar hyn o bryd, y brif risg yw bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn methu cynyddu'r effaith bosibl y gall ei chyflawni drwy ddull cydweithio.

6.2 Mae yna risg na fydd gan bartneriaid yr adnoddau neu flaenoriaethau cyfatebol i gefnogi darpariaeth o'r prosiect yr hoffem gydweithio arnynt, gan effeithio ar ein gallu i gyflawni.

**7. CYMHELLION A GOBLYGIADAU**

7.1 Mae cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi nodau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**8. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

9.1 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn mynnu bod yn rhaid cyhoeddi Cynlluniau Lles dim hwyrach na 12 mis yn dilyn yr etholiad arferol llywodraeth leol gyntaf, yn dilyn dechrau Rhan 4 o'r Ddeddf. Y dyddiad cau statudol i gyhoeddi'r cynllun yw erbyn 4 Mai 2018.

| PAPURAU CEFNDIR | LLEOLIAD | GWYBODAETH GWEFAN |
|---|---|---|
| | | |